

Hyfforddiant Athrawon Newydd Gymhwyso [ANG]



RHAGLENNI HYFFORDDI

YMSEFYDLU GwE

Mae Llywodraeth Cymru (LIC) a chonsortium rhanbarthol GwE yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu rhaglen i gefnogi cyfnod ymsefydlu statudol athrawon newydd gymhwyso (ANG). Lluniwyd y rhaglen i sicrhau bod pob ANG yn derbyn cefnogaeth o'r ansawdd uchaf sy'n adeiladu ar eu profiadau addysg athro cychwynnol ac yn gosod sylfaen ar gyfer dysgu a datblygiad proffesiynol gydol gyrfa.

Mae'r rhaglen hon wedi'i chysylltu'n agos â Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth GwE ac felly yn rhan o ymrwymiad hirdymor GwE i gyflwyno datblygiad proffesiynol sy'n flaengar, yn seiliedig ar arfer ac sy'n ddatblygiad gydol gyrfa, i bawb. Darperir cymorth pellach ar gyfer ANG o ganlyniad i'r cydweithio rhwng GwE a chonsortia eraill yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod ansawdd a thrylwyredd yr ymsefydlu statudol yn gyson ar draws Cymru gyfan.

Mae rhyddhau ymarferwyr i fentora ANG fel Mentoriaid Ysgol a Mentoriaid Allanol yn cynnig cyfleoedd ardderchog ar sawl lefel i'r mentoriaid ac i'r ysgolion sy'n eu rhyddhau. Mae'n gyfle pwysig i fuddsoddi er mwyn codi safonau a darpariaeth ar gyfer ANG, gan helpu hefyd i ddatblygu arweinwyr ysgol y dyfodol. Mae hefyd yn gyfle i gefnogi menter genedlaethol ac yn ffordd o gwrdd ag amcanion penaethiaid o ran cyflawni cyfrifoldebau proffesiynol i ddatblygu a gwella eu proffesiwn yn y dyfodol.

CRYNODEB O'R RHAGLEN

RHAGLEN HYFFORDDI YMSEFYDLU ATHRAWON NEWYDD GYMHWYSO:

Rhaglen ddatblygu ymarferol a fydd yn canolbwyntio ar Arweiniad Llywodraeth Cymru (Cylchlythyr Llywodraeth Cymru rhif: 017/2014) *Ymsefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru (diwygiwyd 2014)*. Bydd y rhaglen yn rhoi arweiniad a chynngor ar yr agweddau canlynol o'r flwyddyn Ymsefydlu:

- Y trefniadau ymsefydlu yng Nghymru
- Rolau mentora
- Rôl y Pennaeth a'r ysgol
- Rôl y corff priodol
- Cwblhau dogfennau ar-lein

Bydd y rhaglen yn rhoi digon o gyfle i ANG ddatblygu eu sgiliau addysgu, yn ogystal â chynyddu eu gwybodaeth a dealltwriaeth bersonol o'r addysgeg gyfredol fwyaf effeithiol.

RHAGLEN HYFFORDDI MENTORIAID YSGOL:

Rhaglen sy'n cael effaith uchel, a gynlluniwyd ar gyfer athrawon sydd â'r potensial i fentora athrawon newydd gymhwyso yn eu rôl addysgu gyntaf. Byddai gan Fentor Ysgol rôl hanfodol i'w chwarae wrth ddatblygu arbenigedd athrawon newydd gymhwyso. Bwriad y rhaglen yw:

- cynnal ac adeiladu ar y Safonau a gyrhaeddwyd wrth gyflawni Statws Athro Cymwysedig;
- darparu cefnogaeth ar gyfer ANG yn ystod eu blwyddyn gyntaf fel athro mewn swydd;
- darparu cyfnod arwahanol mewn continwwm o ddatblygu proffesiynol;
- datblygu agwedd gadarnhaol tuag at y proffesiwn a datblygiad proffesiynol yr athro ei hun;
- datblygu'r sgiliau y mae cydweithwyr eu hangen i weithio gydag ANG wrth ddarparu datblygiad proffesiynol parhaus ac asesu cynnydd.

RHAGLEN HYFFORDDI MENTORIAID ALLANOL:

Mae rôl y mentor allanol yn darparu cefnogaeth ychwanegol i athrawon newydd gymhwyso (ANG) yn ystod eu cyfnod ymsefydlu statudol. Mae'r rôl hon yn cynnig cyfle cyffrous i ymarferwyr fod yn rhan o ddull arloesol o fentora ar lefel consortiwm. Mae'r Rhaglen Hyfforddi i Fentoriaid Allanol yn darparu cefnogaeth lawn ar gyfer y rôl. Mae mentora allanol yn brofiad llawn her a mwynhad. Mae'n cynnig cyfleodd cyfoethog i Fentoriaid Allanol ddatblygu'n broffesiynol ac i ehangu eu sgiliau ym meysydd datblygu athrawon ac adeiladu cymunedau dysgu proffesiynol.

Yng nghyd-destun datblygu dysgu proffesiynol, bydd y Mentor Allanol nid yn unig yn darparu ymarferwyr â, ond hefyd yn elwa eu hunain o fframwaith gydlynol, hyblyg a chadarn a fydd yn nodi'r dulliau datblygiad proffesiynol mwyaf effeithiol, sydd wedi'u llywio gan yr ymchwil academiaidd diweddaraf ac sydd wedi eu profi i gael effaith gadarnhaol ar arferion ar lawr y dosbarth.

Mae'r rhaglen hyfforddi yn nodi nodweddion allweddol datblygiad proffesiynol effeithiol sy'n caniatáu rhaglen ddysgu broffesiynol effeithiol. Cefnogir rôl y Mentor Allanol gan Lywodraeth Cymru (Cylchlythyr Llywodraeth Cymru rhif: 017/2014). Dylid gweld y rôl hon fel cyfle Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) rhagorol.



Hyfforddiant Ymsefydlu ANG



HYFFORDDIANT YMSEFYDLU

ATHRAWON NEWYDD GYMHWYSO (ANG)

Mae'r rhaglen hyfforddi hon ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwys (ANG) presennol sy'n cwblhau eu Blwyddyn Ymsefydlu.

- Meini prawf a awgrymir ar gyfer derbyn ANG ar y rhaglen hon:
 - * Wedi cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA)
 - * Wedi dechrau eu Blwyddyn Ymsefydlu drwy roi gwybod i'r CGA.
- Bydd y rhaglen yn agored i bob ANG mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig o fewn rhanbarth GwE.
- Mae'r rhaglen hefyd yn agored i bob ANG cyflenwi tymor byr o fewn y rhanbarth.
- Ni fydd unrhyw gost i'r rhaglen; fodd bynnag, bydd rhaid i ysgolion ariannu athro cyflenwi eu hunain.
- Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio'n benodol ar gyfer datblygu Athrawon Newydd Gymhwys yn eu Blwyddyn Ymsefydlu.

Digwyddiadau Hyfforddi

Hysbysebair yr holl ddigwyddiadau hyfforddi ym mwletin wythnosol GwE; cofrestrwch ar gyfer y bwletin ar:

<http://www.gwegogledd.cymru/cy/cyfathrebu/bwletin>

Mae'n rhaid i ANG gofrestru i fynychu pob digwyddiad.

DIGWYDDIAD 1

Cyflwyniad i'r flwyddyn Ymsefydlu (1/2 Diwrnod)

Bydd y diwrnod hyfforddi ar gyfer ANG yn cynnig arweiniad ar swyddogaeth a rôl y Corff Priodol (CP) a'r defnydd o wefan y Cyngor Gweithlu Addysg (CGA) ar gyfer cofnodi cynnydd yn ystod y flwyddyn ymsefydlu.

Bydd y diwrnod yn canolbwyntio ar:

- Eich Corff Priodol (CP) a'i swyddogaeth yn ystod y flwyddyn Ymsefydlu
- Defnyddio gwefan y Cyngor Gweithlu Addysg (CGA)
- Diogelu

Darparwr y Cwrs: Corff Priodol (CP)

Dyddiadau a Lleoliadau'r Cwrs

Diwedd mis Medi

Gwahoddir ANG i gofrestru ar gyfer dyddiad a lleoliad eu CP.



DIGWYDDIAD 2

Rheoli Dosbarth yn Effeithiol (1 Diwrnod)

Arweinir y digwyddiad hyfforddi un diwrnod hwn gan y Corff Priodol (CP), a bydd yn darparu arweiniad, strategaethau ac adnoddau sy'n canolbwyntio ar:

- Reoli Dosbarth
- Anghenion Dysgu Ychwanegol
- E – Ddiogelwch
- Cwblhau eich Adran 3

Darparwr y Cwrs: Corff Priodol (CP)

Dyddiadau a Lleoliadau'r Cwrs

Hydref / Tachwedd

Gwahoddir ANG i gofrestru ar gyfer dyddiad a lleoliad eu CP.

DIGWYDDIAD 3

Cwrs Llythrennedd a Rhifedd (1 Diwrnod)

Bydd y digwyddiad hyfforddi un diwrnod hwn ar gyfer ANG, dan arweiniad Partneriaid Cynorthwyol GwE, yn darparu arweiniad, strategaethau ac adnoddau sy'n canolbwyntio ar gynllunio ar gyfer llythrennedd a rhifedd o fewn eich dosbarth mewn ymateb i'r FfLIRh. Bydd y digwyddiad hwn yn ddiwrnod ymarferol a fydd yn arfogi'r rheiny sy'n bresennol gyda'r sgiliau i ddatblygu llythrennedd a rhifedd o fewn yr ystafell dosbarth. Bydd gweithgareddau'n canolbwyntio ar adnabod cyfleoedd ar sail oedran er mwyn datblygu sgiliau ar draws y pynciau; asesu ar gyfer dysgu – pennu amcanion a meini prawf llwyddiant; cynllunio tasgau cyfoethog a datblygu ymarferwyr myfyriol drwy welliant parhaus.

Darparwr y Cwrs: GwE

Dyddiadau a Lleoliadau'r Cwrs

Tymor y Gwanwyn

Gwahoddir ANG i gofrestru ar gyfer **UN** o'r dyddiadau a'r lleoliadau cyfnod Cynradd neu Uwchradd sydd ar gael. Bydd y lleoliadau ar wasgar ar draws y Rhanbarth e.e. Bangor, Llanelwy, Llanrwst, Wrecsam a'r Wyddgrug) gyda dewis o naill ai cyfrwng Cymraeg neu Saesneg.

DIGWYDDIAD 4

Addysgu myfyriol; dysgu effeithiol (1 Diwrnod)

Bydd y digwyddiad hyfforddi un diwrnod hwn ar gyfer ANG yn darparu strategaethau ac adnoddau sy'n canolbwyntio ar ddysgu ac addysgu o fewn yr ystafell ddosbarth. Bydd yn cynnwys cyflwyniadau gan ysgolion rhanbarthol a adnabyddir am eu harfer effeithiol.

Bydd y diwrnod yn canolbwyntio ar:

- Gynllunio profiadau dysgu cyfoethog sy'n arwain at well darpariaeth ac yn codi safonau
- Defnydd effeithiol o ddata a thystiolaeth ymchwil
- Cydweithio gydag eraill
- Dealltwriaeth o bwysigrwydd hyfforddi a mentora effeithiol
- Adolygu a myfyrio ar ymarfer

Darparwr y Cwrs: GwE

Dyddiadau a Lleoliadau'r Cwrs

Tymor y Gwanwyn

Gwahoddir ANG i gofrestru ar gyfer UN o'r dyddiadau a'r lleoliadau cyfnod Cynradd neu Uwchradd sydd ar gael. Bydd y lleoliadau ar wasgar ar draws y Rhanbarth e.e. Bangor, Llanellwyr, Llanrwst, Wrecsam a'r Wyddgrug) gyda dewis o naill ai cyfrwng Cymraeg neu Saesneg.

Hyfforddiant Mentoriaid

Ysgol



HYFFORDDIANT MENTORIAID YSGOL (MY)

Cynigir y rhaglen hyfforddi hon i Fentoriaid Ysgol (MY) er mwyn cefnogi Athrawon Newydd Gymhwysu (ANG) sy'n cwblhau eu Blwyddyn Ymsefydlu.

- Meini prawf a awgrymir ar gyfer derbyn ymgeiswyr ar y rhaglen hon:
 - * Wedi dysgu am o leiaf tair blynedd.
 - * Yn cael eu hystyried yn 'ymarferwyr da' ar y lleiaf
 - * Â gwybodaeth resymol am y Safonau Dysgu Athrawon wrth eu Gwaith
 - * Drwy gofrestru ar y rhaglen hon ymrwymir i fynychu o leiaf un o'r digwyddiadau hyfforddiant diweddarau bob blwyddyn academiaidd
- Bydd y rhaglen yn agored i'r holl athrawon sy'n cwrdd â'r meini prawf uchod mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig o fewn rhanbarth GwE
- Ni fydd cost i'w dalu am y rhaglen hon; fodd bynnag, bydd rhaid i ysgolion ariannu athro cyflenwi eu hunain.
- Mae'r rhaglen hon wedi'i chynllunio'n benodol i ddatblygu Mentoriaid Ysgol sy'n cefnogi Athrawon Newydd Gymhwysu yn eu blwyddyn Ymsefydlu.

Mentora – Beth yw e?

“Perthynas ddeinamig a chyfatebol mewn amgylchedd gwaith rhwng deiliad gyrfa ddatblygedig (mentor) a dechreuwr (protégé), sydd â'r nod o ddatblygu gyrfa'r ddau”

Healey a Welchart (1990)

Egwyddorion Allweddol Mentora Ysgol:

- Dylai pawb yn yr ysgol sy'n rhan o Ymsefydlu'r ANG gael dealltwriaeth glir o gyfrifoldeb a rôl y MY.
- Dylai'r MY feddu ar, neu ddatblygu, y wybodaeth, y sgiliau, a'r ddealltwriaeth benodol sydd eu hangen arnynt er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol.
- Dylid cefnogi a chydabod pwysigrwydd y rôl ymsefydlu yng nghyd-destun ehangach yr ysgol.

Rôl y Mentor Ysgol:

- Gwybod, deall a sicrhau bod cyfrifoldebau'n cael eu cyflawni
- Cynnig arweiniad, cefnogaeth a monitro o ddydd i ddydd
- Cynorthwyo gyda phennu amcanion, cynllunio gweithredu a gweithgareddau datblygiad proffesiynol sy'n canolbwyntio ar amcanion ac anghenion
- Arsylwi ac chymryd rhan mewn deialog broffesiynol
- Adolygu ac asesu cynnydd
- Adrodd i'r Pennaeth



Amcanion y Rhaglen Hyfforddi:

Sicrhau bod cyfranogwyr yn deall y cyfle i ddatblygu'n proffesiynol y mae rôl y Mentor Ymsefydlu yn ei gynnig. Hysbysu cyfranogwyr am y Safonau Athrawon wrth eu Gwaith a'r Fframwaith Ymsefydlu.

Sicrhau bod y cyfranogwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau penodol fel mentoriaid Ymsefydlu.

Paratoi'r cyfranogwyr ar gyfer y gofynion penodol a gyflwynir yn y fframwaith Ymsefydlu, h.y.:

asesu;

arsylwi;

defnydd o'r PDG ac adolygiadau datblygiad proffesiynol;

cynllunio rhaglenni datblygiad proffesiynol unigol ar gyfer ANG

Digwyddiadau Hyfforddi:

Hysbysebwr yr holl ddigwyddiadau hyfforddi ym mwletin wythnosol GwE; cofrestrwch ar gyfer y bwletin ar:

<http://www.gwegogledd.cymru/cy/cyfathrebu/bwletin>

Mae'n rhaid i Fentoriaid Ysgol gofrestru i fynychu pob digwyddiad.

DIGWYDDIAD 1

Cyflwyniad i rôl y MY (1/2 Diwrnod)

Bydd y digwyddiad hyfforddi hanner diwrnod hwn ar gyfer y MY yn cynnig arweiniad ar swyddogaeth a rôl y Corff Priodol (CP) a'r mentor allanol (MA). Rhoddir arweiniad hefyd ar y defnydd o wefan y Cyngor Gweithlu Addysg (CGA) ar gyfer cofnodi cynnydd yn ystod y flwyddyn ymsefydlu a rheoli'r rhaglen.

Bydd yr hanner diwrnod yn canolbwyntio ar bum prif elfen gyntaf y rhaglen i Fentoriaid Ymsefydlu:

1. Y Safonau Athrawon wrth eu Gwaith
2. Y Fframwaith Ymsefydlu
3. Bod yn Fentor Ymsefydlu
4. Rôl y cyrff allanol
5. Datblygu Rhaglenni Datblygiad Proffesiynol Unigol

Darparwr y Cwrs: GwE

Gwahoddir MY i gofrestru ar gyfer UN o'r dyddiadau a'r lleoliadau sydd ar gael. Bydd y lleoliadau ar wasgar ar draws y Rhanbarth gyda dewis o naill ai cyfrwng Cymraeg neu Saesneg.

DIGWYDDIAD 2

Cyfrifoldeb Statudol (1/2 Diwrnod)

Bydd yr ail ddigwyddiad hyfforddi hanner diwrnod hwn ar gyfer y MY yn darparu arweiniad, strategaethau ac adnoddau yn canolbwyntio ar bedair prif elfen sy'n weddill i'r rhaglen i Fentoriaid Ymsefydlu:

- Arsylwi Dosbarth
- Rhoi adborth
- Casglu tystiolaeth
- Asesu

Darparwr y Cwrs: GwE

Gwahoddir MY i gofrestru ar gyfer **UN** o'r dyddiadau a'r lleoliadau cyfnod Cynradd neu Uwchradd sydd ar gael. Bydd y lleoliadau ar wasgar ar draws y Rhanbarth gyda dewis o naill ai cyfrwng Cymraeg neu Saesneg.

DIGWYDDIAD 3

Hyfforddiant Diweddarau (dwywaith y flwyddyn)

Bydd sesiwn hyfforddiant diweddarau yn cael ei threfnu ar gyfer Mentoriaid Ysgol (MY) ANG, gyda ffocws ar wefan y CGA, y rhaglen ymsefydlu ANG a'r prosesau sicrhau ansawdd.

- Diweddariadau gan Lywodraeth Cymru.
- Mynediad ar-lein yn defnyddio gwefan y CGA.
- Sicrhau ansawdd y broses ymsefydlu a rhannu enghreifftiau o ddogfennaeth orffenedig.
- Sesiwn cwestiwn ac ateb.

Darparwr y Cwrs: CP

Gwahoddir MY i gofrestru ar gyfer **UN** o'r dyddiadau a'r lleoliadau sydd ar gael. Bydd y lleoliadau ar wasgar ar draws y Rhanbarth gyda dewis o naill ai cyfrwng Cymraeg neu Saesneg.

Hyfforddiant Mentoriaid

Allanol



HYFFORDDIANT MENTORIAID

ALLANOL (MA)

Cynigir y rhaglen hyfforddi hon i Fentoriaid Allanol (MA) er mwyn cefnogi Athrawon Newydd Gymhwys (ANG) sy'n cwblhau eu Blwyddyn Ymsefydlu.

- Meini prawf a awgrymir ar gyfer derbyn ymgeiswyr ar y rhaglen hon:
 - * Wedi cwblhau rhaglen hyfforddi Arweinwyr Canol neu Uwch GwE yn llwyddiannus.
 - * Wedi dysgu am o leiaf pum mlynedd, ac fe'u hystyrir yn 'ymarferwyr da' ar y lleiaf.
 - * Profiad fel mentor neu hyfforddwr effeithiol i athrawon eraill —yn enwedig wrth adnabod materion allweddol i wella arfer a darparu adborth ystyrlon ar lafar ac yn ysgrifenedig.
 - * Sgiliau rhyngpersonol ardderchog, gyda sgiliau cyfathrebu uchel ar lafar ac yn ysgrifenedig, a'r gallu i ddefnyddio TGCh y effeithiol ar draws holl agweddau'r rôl.
 - * Dealltwriaeth ardderchog o'r dulliau mwyaf effeithiol o ddysgu proffesiynol.
 - * Gwybodaeth a dealltwriaeth o drefniadau statudol ymsefydlu yng Nghymru.
 - * Ymrwymiad i fynychu digwyddiad safoni er mwyn cynnal statws MA.
- Bydd y rhaglen hon yn agored i'r holl athrawon sy'n cwrdd â'r meini prawf uchod mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig o fewn rhanbarth GwE.
- Ni fydd cost i'w dalu am y rhaglen hon; bydd GwE yn ariannu athro cyflenwi.
- Mae'r rhaglen hon wedi'i chynllunio'n benodol i ddatblygu Mentoriaid Allanol sy'n cefnogi Athrawon Newydd Gymhwys yn eu blwyddyn Ymsefydlu.

Mentora —Beth yw e?

"Mae ansawdd ein gwrando yn pennu ansawdd y sgwrs rydym yn ysbrydoli" yn ôl Ben Renshaw (2005) tra bod Hook et al. (2006) yn ei eirio fel hyn: "mae mentoriaid yn gwybod llawer o atebion, tra bod hyfforddwr yn gwybod y rhan fwyaf o'r cwestiynau".

Mae'r fframwaith CUREE yn gwahaniaethu rhwng prosesau cysylltiedig fel a ganlyn:

- Mae mentora yn broses strwythuredig, barhaus ar gyfer cefnogi dysgwyr proffesiynol trwy gyfnodau o newid gyrfa arwyddocaol.
- Mae hyfforddiant arbenigol yn broses strwythuredig, barhaus ar gyfer galluogi datblygiad agwedd benodol o arfer dysgwr proffesiynol.

Egwyddorion Allweddol:

Mae gan y mentor allanol rôl allweddol yn y broses ymsefydlu. Mae'r holl fentoriaid allanol yn darparu mentora o ansawdd uchel ar gyfer yr ANG yn ystod eu cyfnod ymsefydlu statudol, yn cefnogi datblygiad arfer yr ANG ac yn caglu tystiolaeth yn erbyn y SAG.

Mae'r mentor allanol yn gweithio gyda'r mentor ysgol i ddarparu cefnogaeth ychwanegol deilwredig a mentora i gefnogi'r ANG i gwrdd â gofynion yr ymsefydlu. Mae'r mentor allanol yn ystyried y dystiolaeth a ddarperir gan y mentor ysgol wrth bennu natur y gefnogaeth.



Rôl y Mentor Allanol:

- Sefydlu perthynas broffesiynol effeithiol gydag ANG a staff ysgol.
- Cydweithio gyda GwE a'r Cyrff Priodol i gyflwyno system ymsefydlu statudol effeithlon ac effeithiol.
- Cyfod gwybodaeth a thystiolaeth yn effeithiol.
- Cofnodi canlyniadau canfyddiadau'n gywir a chryno.
- Adnabod nodweddion dysgu ac addysgu o ansawdd.

Amcanion y Rhaglen Hyfforddi:

1. Sicrhau bod cyfranogwyr yn deall y cyfle i ddatblygu'n broffesiynol y mae rôl y Mentor Allanol yn ei gynnig.
2. Hysbysu cyfranogwyr am y Safonau Athrawon wrth eu Gwaith a'r Fframwaith Ymsefydlu.
3. Sicrhau bod y cyfranogwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau penodol fel Mentoriaid Allanol.
4. Sicrhau bod cyfranogwyr yn deall sut i gynnal eu cofnodion.
5. Paratoi'r cyfranogwyr ar gyfer y gofynion penodol a gyflwynir yn y fframwaith Ymsefydlu, h.y.:
 - hyfforddi a mentora;
 - arsylwi;
 - asesu;
 - gwneud argymhellion

Digwyddiadau Hyfforddi

Hysbysebwr yr holl ddigwyddiadau hyfforddi ym mwletin wythnosol GwE;

Cofrestrwch ar gyfer y bwletin ar: <http://www.gwegogledd.cymru/cy/cyfathrebu/bwletin>

Mae'n rhaid i'r MA gofrestru i fynychu pob digwyddiad.

DIGWYDDIAD 1

Hyfforddiant Cychwynnol Mentoriaid Allanol ar gyfer yr Ymsefydlu Statudol (1 diwrnod)

Bydd y digwyddiad hyfforddi hanner diwrnod hwn ar gyfer y MA yn darparu arweiniad i swyddogaeth a rôl y Corff Priodol (CP) a'r mentor allanol (MA). Rhoddir arweiniad hefyd ar y defnydd o wefan y Cyngor Gweithlu Addysg (CGA) ar gyfer cofnodi cynnydd yn ystod y flwyddyn ymsefydlu a rheoli'r rhaglen.

Bydd yr hanner diwrnod yn canolbwyntio ar elfennau canlynol y rhaglen i Fentoriaid Ymsefydlu:

1. Y Safonau Athrawon wrth eu Gwaith
2. Y Fframwaith Ymsefydlu
3. Bod yn Fentor Ymsefydlu
4. Amserlen a dogfennaeth MA
5. Casglu a chofnodi tystiolaeth
6. Asesu ac argymhellion
7. Athro Cyflenwi Tymor Byr (ACTB)
8. Rôl y cyrff allanol

Darparwr y Cwrs: GwE

Gwahoddir MA i gofrestru ar gyfer **UN** o'r dyddiadau a'r lleoliadau sydd ar gael. Bydd y lleoliadau ar wasgar ar draws y Rhanbarth gyda dewis o naill ai cyfrwng Cymraeg neu Saesneg.

DIGWYDDIAD 2

Arsylwi, Mentora a Hyfforddi ANG (1 Diwrnod)

Bydd ail ddiwrnod y digwyddiad hyfforddi hwn ar gyfer y MA yn darparu arweiniad, strategaethau ac adnoddau yn canolbwyntio ar yr elfennau sy'n weddill i'r rhaglen Mentoriaid Allanol

- Arsylwi Dosbarth
- Rhoi adborth
- Hyfforddi a mentora

Darparwr y Cwrs: GwE

Gwahoddir MA i gofrestru ar gyfer **UN** o'r dyddiadau a'r lleoliadau sydd ar gael. Bydd y lleoliadau ar wasgar ar draws y Rhanbarth gyda dewis o naill ai cyfrwng Cymraeg neu Saesneg.

DIGWYDDIAD 3

Safoni (1/2 Diwrnod)

Digwyddiad blynyddol ar gyfer sicrhau ansawdd ar draws y rhanbarth.

Bydd sesiwn hyfforddiant diweddar yn cael ei threfnu ar gyfer Mentoriaid Allanol (MA), gyda ffocws ar wefan y CGA, y rhaglen ymsefydlu ANG a safoni.

- Diweddariadau gan Lywodraeth Cymru.
- Mynediad ar-lein yn defnyddio gwefan y CGA.
- Sicrhau ansawdd y broses ymsefydlu a rhannu enghreifftiau o ddogfennaeth orffenedig.
- Safoni (edrych ar ddogfennau o gonsortia eraill).
- Sesiwn cwestiwn ag ateb.

Darparwr y Cwrs: GwE

Gwahoddir MA i gofrestru ar gyfer **UN** o'r dyddiadau a'r lleoliadau sydd ar gael. Bydd y lleoliadau ar wasgar ar draws y Rhanbarth gyda dewis o naill ai cyfrwng Cymraeg neu Saesneg.

Rolau a Chyfrifoldebau Pawb



ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU PAWB

RÔL A CHYFRIFOLDEB YR ANG

Dechrau'r cyfnod ymsefydlu

Dylai ANG:

- roi gwybod i'w hysgol eu bod yn ANG ac yn ymgymryd â'u blwyddyn Ymsefydlu
- trafod y SAG gyda'r MY yng nghyd-destun eu PDG
- pennu eu blaenoriaethau datblygu gan ystyried blaenoriaethau cenedlaethol, lleol ac ysgol ynghyd â blaenoriaethau o'u PDG a'r SAG
- ystyried sut i gasglu tystiolaeth yn erbyn y SAG a dechrau cwblhau'r proffil ymsefydlu Statudol
- cytuno ar amserlenni arsylwi ar gyfer y tymor cyntaf ar gyfer ANG a gyflogir yn llawn amser, neu ar gyfer ANG a gyflogir yn rhan amser, erbyn i'r ANG gwblhau 140 o sesiynau
- cytuno a neilltuo amser ar gyfer adolygiadau rheolaidd o gynnydd a chefnogaeth

Goruchwyliaeth a chefnogaeth yn ystod y cyfnod ymsefydlu

Dylai ANG:

- gymryd rhan mewn gweithgareddau hyfforddi a datblygu
- adnabod a chynnal cyfnod o dystiolaeth o gwrdd â'r SAG gan ddefnyddio'r proffil ymsefydlu Statudol ar-lein
- cyfarfod â'r MY yn rheolaidd i adolygu cynnydd yn erbyn y SAG
- pennu blaenoriaethau a chefnogaeth
- cyfarfod â'r MA i adolygu cynnydd yn erbyn y SAG
- cynnal cofnod o gyflogaeth wedi'i wirio gan bennaeth yr ysgol(ion)
- mewngofnodi i'w cofnod yn y CGA yn rheolaidd i sicrhau bod y CGA yn derbyn y wybodaeth lawn o ran statws ac yn cael gwybod am bob cyfnod o gyflogaeth yn cynnwys gwirio'r cofnod ar-lein yn rheolaidd.



RÔL Y PENNAETH A'R YSGOL

Rhaid i ysgolion sy'n cyflogi athro/athrawes newydd gymhwyso (gan gynnwys y rheiny sy'n gweithio fel athrawon cyflenwi byrdymor) roi cefnogaeth o ddydd i ddydd i'r athro/athrawes newydd gymhwyso drwy gydol eu cyfnod ymsefydlu, cydweithio'n agos â'r mentor allanol a darparu tystiolaeth ar ddiwedd y cyfnod ymsefydlu a fydd yn cyfrannu at asesiad terfynol yr athro/athrawes newydd gymhwyso gan y corff priodol. Cyfrifoldeb y pennaeth yw sicrhau bod y gefnogaeth hon yn cael ei darparu, a bod mentor ysgol yn cael ei bennu ar gyfer pob athro/athrawes newydd gymhwyso.

Rhaid i ysgolion sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion a nodir yn *Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol* (Yr Adran Addysg) a sicrhau nad yw athrawon newydd gymhwyso yn addysgu am fwy na 90 y cant o'r amser y byddai disgwyl i athro/athrawes ei dreulio'n addysgu yn yr ysgol.

Mae ysgolion yn gymwys i dderbyn cyllid i dalu am y gostyngiad hwn yn yr amserlen a gellir hawlio'r cyllid hwnnw fesul tymor. Gweinyddir y cyllid gan CGA ac mae rhagor o wybodaeth a ffurflenni hawlio ar gael ar wefan CGA, www.cga.cymru.

Mae'r amser digyswllt hwn yn ychwanegol at y 10 y cant o amser digyswllt statudol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu (CPA) y mae pob athro/athrawes yn gymwys iddo yn unol â *Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol* hawl i'w dderbyn.

Ymsefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru cylchlythyr rhif: 017/2014 Dyddiad cyhoeddi: Medi 2014

RÔL Y CORFF PRIODOL

Mae gan y corff priodol gyfrifoldeb statudol cyffredinol am oruchwylio a hyfforddi'r holl athrawon newydd gymhwyso, ac am benderfynu'n derfynol ar ddiwedd y cyfnod ymsefydlu a yw'r athro/athrawes newydd gymhwyso wedi llwyddo yn eu cyfnod ymsefydlu, wedi methu, ynteu a oes angen ymestyn y cyfnod hwnnw.

Mae'r corff priodol yn gyfrifol am sicrhau bod cyfnod ymsefydlu pob athro/athrawes newydd gymhwyso yn cynnwys rhaglen o ddysgu proffesiynol, monitro a chefnogaeth yn seiliedig ar flaenoriaethau craidd llythrennedd, rhifedd, lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad, anghenion dysgu ychwanegol a rheoli ymddygiad. Mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod athrawon newydd gymhwyso yn datblygu eu sgiliau mewn ymarfer myfyriol, cydweithio effeithiol, hyfforddi a mentora, a defnyddio data a thystiolaeth ymchwil yn effeithiol.

Rhaid i'r corff priodol hysbysu'r CGA ynghylch canlyniad yr ymsefydlu ar gyfer yr holl rai sy'n llwyddiannus, yn ogystal â'r rheiny sy'n methu'r ymsefydlu neu'n cael estyniad i'w cyfnod ymsefydlu o fewn yr amserlenni a nodir yn y Rheoliadau. Dylai'r corff priodol lwytho holl ganlyniadau'r ymsefydlu i wefan www.cga.cymru.

Rhaid i'r corff priodol sicrhau bod systemau sicrhau ansawdd effeithiol a chadarn yn cael eu sefydlu fel bod pob athro/athrawes newydd gymhwyso yn derbyn cefnogaeth ymsefydlu o'r ansawdd uchaf. Dylid pennu'r dulliau o sicrhau ansawdd ar lefel consortiwm er mwyn sicrhau bod dull gweithredu cyson ar draws Cymru.

Pwy sy'n gweithredu fel y corff priodol?

Ar gyfer ysgolion a gynhelir ac ysgolion arbennig nas cynhelir, rhaid i awdurdod lleol yr ysgol weithredu fel y corff priodol.

Rhaid i ysgolion annibynnol sicrhau bod awdurdodau lleol yn cytuno i weithredu fel y corff priodol cyn cynnig cyfnod ymsefydlu i athro/athrawes newydd gymhwyso yn yr ysgol. Mae'n bosib na fydd pob ysgol annibynnol yn gallu cynnig cyfnod ymsefydlu sy'n bodloni gofynion y rheoliadau ymsefydlu. Dylai'r corff priodol felly ddarbwylllo'i hun fod ysgol annibynnol yn bodloni'r holl ofynion ar gyfer ymsefydlu statudol athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru cyn i'r cyfnod ymsefydlu ddechrau, a bod hynny'n parhau i fod yn wir drwy gydol y cyfnod ymsefydlu.

Penderfynu'n derfynol ar ddiwedd y cyfnod ymsefydlu

Mae'n hanfodol bod penderfyniad y corff priodol o ran a yw athro/athrawes newydd gymhwyso wedi bodloni'r SAG yn deg, yn gyson ac yn drwyadl.

Rhaid i'r corff priodol seilio'i benderfyniad ar yr argymhelliad ysgrifenedig a geir oddi wrth fentoriaid allanol ac ysgol yr athro/athrawes newydd gymhwyso. Rhaid i'r corff priodol hefyd ystyried unrhyw sylwadau ysgrifenedig gan yr athro/athrawes newydd gymhwyso eu hunain sy'n gysylltiedig â'u hasesiad terfynol.

Bydd y corff priodol yn ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd yn y Proffil Ymsefydlu. Os nad oes gan yr athro/athrawes newydd gymhwyso dystiolaeth ddigonol i ddangos eu bod wedi bodloni'r SAG, rhaid i'r corff priodol ystyried a fyddai'n briodol ymestyn y cyfnod ymsefydlu cyn penderfynu bod yr athro/athrawes newydd gymhwyso wedi methu'r ymsefydlu.

Ymsefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru cylchlythyr rhif: 017/2014 Dyddiad cyhoeddi: Medi 2014

Gwybodaeth Ddefnyddiol



GWYBODAETH DDEFNYDDIOL

CONSORTIWM GOGLEDD CYMRU

CYSWLLT CONSORTIWM		leuan Jones	leuanJones@gwegogledd.cymru ang@gwegogledd.cymru
AWDURDOD LLEOL	CYDLNYDD YMSEFYDLU	RHIF Ffôn	E-BOST NEU WEFAN
CONWY	Eifion Roberts	07909 895972	eifion.roberts@outlook.com
SIR DDINBYCH	Eifion Roberts	07909 895972	eifion.roberts@sirddinbych.gov.uk eifion.roberts@denbighshire.gov.uk
SIR Y FFLINT	Helen Crich	01352 714637	HelenMCrich@outlook.com
GWYNEDD	Garem Jackson	01286 679147	ffionmairgriffith@gwynedd.llyw.cymru GaremJackson@gwynedd.llyw.cymru
YNYS Môn	Gareth Jones	01248 752916	DGarethJones@anglesey.gov.uk
WRECSAM	John Williams	01978 295441	John1.Williams@wrexham.gov.uk





Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence